



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



CANLLAW I FFIOEDD DYSGU

YM MHRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD





CANLLAW I FFIOEDD DYSGU

YM MHRIFYSGOL METROPOLITAN
CAERDYDD

CYNNWYS

Ffioedd Dysgu Myfyrwyr Llawn Amser (Cartref/UE)	3
Ffioedd Dysgu Myfyrwyr Rhan Amser (Cartref/UE)	3
Dulliau o Dalu i Fyfyrwyr Cartref/UE	4
Talu Ar-lein a Gwybodaeth Debyd Uniongyrchol	5 - 6
Ffioedd Cysylltiol	7
Ffioedd Dysgu Myfyrwyr Rhyngwladol Llawn Amser (heb fod yn yr UE)	8
Myfyrwyr sy'n Ail Wneud y Flwyddyn	9
Rheoliadau Cyffredinol Ffioedd	9
Trafferth Talu	10
Cysylltiadau Buddiol	11
Gwefannau Buddiol	12

FFIOEDD DYSGU MYFYRWYR LLAWN AMSER (CARTREF/UE)

Bydd Met Caerdydd yn codi £9,000.00 am y rhaglenni is-raddedig a TAR am 2018/2019.

Os ydych ar flwyddyn lleoliad yn 2018/2019 mae'r ffi yn gostwng i £1,800.00.

Mae graddfeydd ffioedd astudiaeth ôl-radd (MA, MSc, PhD, ayb.) yn amrywio yn ôl y rhaglen, ewch at y Tabl Ffioedd Myfyrwyr Cartref (DU/UE) ar y wefan:

www.cardiffmet.ac.uk/tuitionfees
am eglurhad.

FFIOEDD DYSGU MYFYRWYR RHAN AMSER (CARTREF/UE)

Bydd ffioedd astudio rhan amser yn ymrywio yn ôl y rhaglen. Os ydych ar gwrs 'Seileidig ar Gredydau' (UG, MA, MSc, ayb) yn aml mae myfyrwyr prif gyrsiau rhan amser yn gwneud 60 credyd y flwyddyn.

Ewch at y Tabl Ffioedd Myfyrwyr Cartref (DU/UE) ar y wefan:

www.cardiffmet.ac.uk/tuitionfees i sicrhau'r graddfeydd cywir. Bydd angen i chi gyfrifo'r ffi drwy luosi'r raddfa credyd gyda'r nifer cywir o gredydau am bob blwyddyn academiaidd (Gall y Cyfarwyddwr Rhaglen gadarnhau hyn).



DULLIAU O DALU I FYFYRWYR CARTREF/UE

Mae gan fyfyrwyr sy'n ymrestru ym Met Caerdydd ddewis o dair ffordd o dalu eu ffioedd:

1. Codi'r tâl ar noddwr trydydd parti.

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC)/Cyflogwr/GIG/Awdurdod Lleol (ALL). Rhaid i unrhyw gyfraniad gan noddwr gael ei wirio, yn achos ariannu gan SLC byddwn ni'n gwirio unrhyw fanylion cyllido drwy fas data SLC. Ar gyfer unrhyw ariannu arall, byddwn angen cadarnhad ysgrifenedig gan y noddwr yn dynodi eu parodrwydd i dalu'r ffioedd a pha ganran ohonyn nhw. Gofalwch fod yr holl wybodaeth gennych chi fel rhan o'r broses ymrestru. Bydd unrhyw gyfraniadau hunan-ariannu i'w gwneud drwy un o'r dulliau canlynol.

2. Taliad llawn fel rhan o'r broses ymrestru.

Cewch gyfle ar ddiwedd yr broses ymrestru i dalu eich ffioedd ar-lein (gweler y dudalen nesaf).

3. Talu drwy Rhandaliadau.

Os ydych wedi dewis talu drwy rhandaliadau, gallwch naill ai lanw Mandad Debyd Uniongyrchol neu drwy gytundeb Taliad Cerdyn Cylchol (Recurring Card Payment - RCP).

Mae Mandad Debyd - Uniongyrchol ar gael ar www.cardiffmet.ac.uk/tuitionfees (printiwrch un, ei lanw a'i anfon aton ni), gofalwch bod y blwch cyfeirnod (reference field) ar y mandad wedi ei lanw gydag wyth ffigwr niwmerig

eich rhif cais/ymrestru. Wedi i ni ei dderbyn, byddwn yn anelu i dynnu'r 4 rhandaliad cyfartal ar yr 20fed o'r mis (o Dachwedd 2018 i Chwefror 2019), pob un am chwarter balans y ffi dysgu am y flwyddyn academiaidd (edrychwch ar eich anfoneb am fwy o fanylion).

Taliad Cerdyn Cylchol

Mae'r Ddolen ar gael ar

www.cardiffmet.ac.uk/feepayment

(Opsiw'n Uchaf). Bydd angen i'r defnyddiwr roi ei rif ID fel myfyriwr (wyth rhif niwmerig) a Dyddiad Geni i fewngofnodi i'r system. Unwaith byddwch yno, bydd angen i'r defnyddiwr wirio'r blwch Ffioedd Dysgu ac yna nodi swm y taliad (h.y. balans y ffioedd am y Flwyddyn Academiaidd). Bydd y botwm 'Dull Talu/Payment Method' yn cynnig tri dewis, ac os ydych am dalu rhandaliadau â Cherdyn Credyd/Debyd, dewiswch 'Recurring Card Payment'. Yna bydd gennych ddau opsiwn, adlewyrchu dyddiadau'r rhandaliadau dan gynllun Debyd Uniongyrchol neu dalu mewn tri thaliad ar ddiwrnod cyntaf pob tymor; cewch weld dyddiadau'r rhandaliadau am bob opsiwn drwy glicio ar 'Show Instalments'. Sylwer, os bydd 'diwrnod mae'n ddyledus' wedi mynd heibio, bydd y rhandaliad hwn yn daladwy ar unwaith.

Os na allwch dalu eich ffioedd ar-lein, gallwch wneud hynny yn yr 'i-Zone' drwy Gerdyn Credyd/Debyd neu Siec.

TALU AR-LEIN

Dolen i'r Dudalen Gwneud Taliad: **www.cardiffmet.ac.uk/feepayment**

Mae tri dewis ar gael i wneud taliad ffi dysgu ar-lein i system y Brifysgol:

Porth Taliadau Myfyrwyr Met Caerdydd:

Talu â Cherdyn Credyd/Debyd am Ffioedd Dysgu. Bydd angen i'r defnyddiwr roi ei rif ID fel Myfyriwr (wyth rhif niwmerig) a'r Dyddiad Geni i wneud taliad i'w gyfrif. Os bydd ar gael, gall y defnyddiwr lofnodi cytundeb rhandaliadau wedi eu pennu ymlaen llaw (gweler y dudalen flaenorol). DS – ni fydd hwn yn arddangos y taliad sy'n ddyledus, rhaid i'r defnyddiwr fewnbynnu'r cyfanswm sy'n ddyledus, ar ôl mewngofnodi, bydd y dull talu'n dyfarnu'r hyn sy'n ddyledus ar unwaith. Gall hyn gymryd hyd at dri diwrnod gwaith i ymddangos ar gyfrif y myfyriwr. Rhaid eich bod wedi cofrestru (Cais neu Ymrestru) gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Porth Taliadau Myfyrwyr Rhyngwladol:

Taliad drwy Drosglwyddiad Banc neu ddull amgen o dalu am Daliadau Dysgu, Llety neu Cosb. (gofalwch fod yr holl fanylion wedi ei rhoi er mwyn i ni glustnodi'ch tâl yn briodol). Gall hyn gymryd hyd at dri diwrnod gwaith cyn i'r tâl ymddangos ar gyfrif y myfyriwr.

System Ariannu Myfyrwyr Met Caerdydd:

Cosb. Rhaid i chi 'gofrestru' fel defnyddiwr yn gyntaf cyn cael mynediad i'r porth hwn, defnyddiwch wyth rhif niwmerig eich ID fel Myfyriwr fel yr enw yn 'User ID'. Yma gallwch weld unrhyw ddyledion heb eu talu ar eich cyfrif a phob taliad heb eu clustnodi. Defnyddio'r gwasanaeth hwn ydy'r dull cyflymaf o ddiweddarau eich record taliadau. Yn anffodus, daw'r defnydd o'r porth hwn i ben yn ystod Blwyddyn Academaidd 2018/2019.

CYNLLUN DEBYD UNIONGYRCHOL

Rhaid i fyfyrwyr sydd am dalu drwy rhandaliadau lanw mandad debyd uniongyrchol (ar gael o'r wefan) a chyflwyno hwn gyda'u blaendal (pumed rhan o'r ffi) wrth ymrestru.

Caiff pedwar rhandaliad cyfartal eu casglu ar yr 20fed o bob mis rhwng Tachwedd 2018 a Chwefror 2019.

TREFNIANT BLAENOROL

Os ydych chi eisoes wedi ymrestru ym Met Caerdydd a bod didyniadau wedi eu gwneud drwy gytundeb debyd uniongyrchol yn 2017/2018, cyn bellad â bod y cytundeb hwn heb ei ganslo gyda'r banc, byddwn yn mynd ymlaen i gasglu'r taliadau gyda'r manylion hynny.

Os hoffech dalu o gyfrif gwahanol, rhaid i chi gwblhau mandad newydd (ar gael ar ein gwefan). Sylwer, y cyfeirnod fydd eich rhif fel myfyriwr ym Met Caerdydd (yr un sydd ar waelod eich cerdyn ID fel myfyriwr).

GOFYNYION CYFFREDINOL DEBYD UNIONGYRCHOL

Gofalwch fod digon o arian ar gael yn eich cyfrif ar y dyddiadau a welir ar y dudalen flaenorol.

Dylech nodi, os caiff rhandaliad debyd uniongyrchol ei wrthod, yna caiff y swm hwnnw ei dynnu'n awtomatig gyda rhandaliad y mis canlynol. Fyddwn ni ddim yn ysgrifennu atoch cyn i'r taliad gael ei gymryd, felly sicrhewch eich bod yn gwbl ymwybodol o fanylion ein cynllun.





FFIOEDD CYSYLLTIOL

FFIOEDD ADNODDAU

Bydd rhaglenni ymchwil fel arfer yn golygu ffi atodol am yr adnoddau (bench fee). Cynghorir chi i holi ymlaen llaw cyn ymrestru beth fydd maint y gost.

Os ydych yn ariannu eich hunan, gall hyn gael ei dalu ar y cyd â'ch ffioedd dysgu. Os ydych yn cael eich noddi, gofalwch fod eich 'Llythyr Noddwr' yn dynodi eu parodrwydd i dalu'r ffi hon.

FFIOEDD DYSGU MYFYRWYR RHYNGWLADOL LLAWN AMSER (HEB FOD YN YR UE)

Darllenwch y tabl ffioedd ar ein gwefan (gwefannau buddiol ar dudalen 12) i ganfod lefel eich ffi.

TÂL GAN NODDWR

Er enghraifft, llysgenhadaeth neu gyflogwr. Byddwch angen llythyr oddi wrth eich noddwr, ar ei bapur ysgifennu swyddogol, gyda llofnod awdurdodedig, yn cadarnhau bydd y taliad yn cael ei wneud ar eich rhan.

Rhaid cyflwyno'r llythyr hwn wrth ymrestru. Hwn fydd awdurdod Met Caerdydd i anfonebu'ch noddwr am y ffioedd.

Os yn berthnasol, gofalwch fod y llythyr hefyd yn cadarnhau parodrwydd eich noddwr i dalu am unrhyw ffioedd ychwanegol. Os na fyddwn yn derbyn llythyr oddi wrth noddwr, byddwch chi'n gyfrifol am dalu'r ffi yn llawn.

Mae dewis o ddwy ffordd i chi dalu:

1. Talu'n Llawn fel rhan o Ymrestru

Gallwch dalu ar-lein (gweler tudalen 5) neu drwy siec/Drafft Banc (taladwy i Met Caerdydd/Met Caerdydd) neu Gerdyn Credyd/Debyd yn yr 'i-Zone'.

Os talwyd unrhyw ffi ymlaen llaw cyn ymrestru, caiff hyn ei ddangos yn eich cyfrif Cyllid, felly gofalwch fod gennych ddull o brofi i'r staff ymrestru pwy ydych chi.

2. Talu drwy Randaliadau

Bydd isafswm o 60% o ffi llawn yn ddyledus fel rhan o'r ymrestru (gan gynnwys unrhyw dâl a wnaed ymlaen llaw). Bydd y balans o 40%, ynghyd â thâl gweinyddol o 5% ar y ddyled sy'n weddill, yn daladwy bedwar mis ar ôl yr ymrestru cyntaf e.e. diwedd Ionawr ar gyfer ymrestru Medi/Hydref, diwedd Mehefin ar gyfer rhai Ionawr/Chwefror, ayb.

MYFYRWYR SY’N AIL WNEUD Y FLWYDDYN

Os ydych yn ailadrodd unrhyw elfen o astudiaethau'r flwyddyn flaenorol, codir ffi sy'n seiliedig ar nifer y credydau y byddwch yn ymrestru ar eu cyfer a bydd yn rhoi ystyriaeth i roi lwfans dan y gweithdrefnau Amgylchiadau Lliniarol (gweler Llawlyfr y Myfyrwyr). Bydd y gost hon yn elfen pro-rata o'ch ffi safonol e.e. os ydych chi'n fyfyrwr 'Cartref' ar raglen llawn amser is-raddedig (@£9,000.00) ac angen ailadrodd 60 credyd (allan o 120) yna eich tâl fydd £4,500.00.



RHEOLIADAU CYFFREDINOL FFFIOEDD

Gofalwch eich bod yn ymwybodol o'n polisïau ar ffioedd. Mae'r manylion yn y llawlyfr myfyrwyr, ar y we ac ar y dudalen gwefan ein ffioedd dysgu (*mae rhestru o ddolenni cyswllt ar dudalen 12*).

Bydd ein llawlyfr diweddaraf ((2018/2019) ar gael cyn y prif sesiwn ymrestru ym mis Medi. Mae hwn yn manylu ar ein polisi ar dynnu'n ôl ac ad-aliadau.



TRAFFERTH TALU

Dylai myfyrwyr sy'n cael trafferthion ariannol wrth dalu eu ffioedd dysgu geisio help cyn gynted â phosibl. Bydd y brifysgol yn llawn cydymdeimlad ac yn helpu, lle gellir gwneud hynny.

Os oes gennych broblemau ariannol, efallai byddwch am gael gair gyda staff Gwasanaethau Myfyrwyr, eich tiwtor personol, neu Undeb y Myfyrwyr. Mae'n bwysig rhoi gwybod i Swyddfa'r Canghellor am unrhyw ddatblygiadau.



CYSYLLTIADAU BUDDIOL

Adran Gyllid Met Caerdydd

O29 2041 6083
tuitionfees@cardiffmet.ac.uk

Adran Derbyniadau Met Caerdydd

O29 2041 6010
AskAdmissions@cardiffmet.ac.uk

Adran Gwasanaethau Myfyrwyr Met Caerdydd

O29 2041 6170
studentservices@cardiffmet.ac.uk

Cynllun Hepgor Ffioedd Met Caerdydd

O29 2041 6087
feeamendments@cardiffmet.ac.uk

Uned Ymrestru Met Caerdydd

O29 2020 5669
enrolment@cardiffmet.ac.uk

Undeb y Myfyrwyr

O29 2041 6190
studentunion@cardiffmet.ac.uk

Cyllid Myfyrwyr o'r UE (nid y DU)

O141 243 3570
EU_Team@slc.co.uk

Cyllid Myfyrwyr Cymru

O845 602 8845

Cyllid Myfyrwyr Lloegr

O845 300 5090

GWEFANNAU BUDDIOL

Gwefan Ffioedd Dysgu Met Caerdydd

www.cardiffmet.ac.uk/tuitionfees

Gwneud Taliad

www.cardiffmet.ac.uk/feepayment

Gwefan Gwasanaethau Myfyrwyr Met Caerdydd

www.cardiffmet.ac.uk/student-services/

Llawlyfr Myfyrwyr Met Caerdydd

www.cardiffmet.ac.uk/student-handbook/index.asp

Mwy o fanylion am ariannu i fyfyrwyr o Gymru

www.studentfinancewales.co.uk

Mwy o fanylion am ariannu i fyfyrwyr o Loegr

www.gov.uk/student-finance

Mwy o fanylion am ariannu i fyfyrwyr o'r Alban

www.student-support-saas.gov.uk

Mwy o fanylion am ariannu i fyfyrwyr o Ogledd Iwerddon

www.studentfinancenl.co.uk

Mwy o fanylion am ariannu i fyfyrwyr yr UE a heb fod o'r DU

www.gov.uk/student-finance

Gwybodaeth gyffredinol i fyfyrwyr am drefniadau ariannu

www.aimhigher.ac.uk/home/index.cfm

Gwefan Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC), adnodd gwirio cais am fenthyciad, ayb.

www.slc.co.uk

Rhai cyngorion da am gyllid myfyrwyr

www.moneysavingexpert.com/family



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

WESTERN AVENUE RHODFA'R GORLLEWIN

CARDIFF CF5 2YB CAERDYDD CF5 2YB

TEL: +44 (0)29 2041 6070 FFÔN: +44 (0)29 2041 6070

FAX: +44 (0)29 2041 6286 FFACS: +44 (0)29 2041 6286

EMAIL: COURSES@CARDIFFMET.AC.UK EBOST: COURSES@CARDIFFMET.AC.UK

WWW.CARDIFFMET.AC.UK WWW.CARDIFFMET.AC.UK